

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddau Economaid a Thryloywder Corfforaethol

Mawrth 2023



1. Cefndir

Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol (y Bil)¹ yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 22 Medi 2022. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref.

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben fel a ganlyn:

“make provision about economic crime and corporate transparency; to make further provision about companies, limited partnerships and other kinds of corporate entity; and to make provision about the registration of overseas entities.”

3. Yn ogystal â pharatoi Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil,² fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU daflen ffeithiau.³ Pan gytunwyd ar ein hadroddiad, roedd y Bil yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

5. Ar 29 Tachwedd 2022, gosododd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, a Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Gweinidogion) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol⁴ (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gyflwyno

¹ Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol, fel y'i cyflwynwyd (Bil 154)

² Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol, Nodiadau Esboniadol, Medi 2022

³ Llywodraeth y DU, Taflen ffeithiau: Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol yn gyffredinol, Ionawr 2023 (wedi'i ddiweddarau)

⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol, Tachwedd 2022

adroddiad ar y Memorandwm erbyn 2 Mawrth 2023.⁵ Estynnwyd y dyddiad cau yn ddiweddarach i 9 Mawrth 2023.⁶

- 7.** Mae'r Memorandwm yn nodi bod gan y Bil yr amcanion polisi a ganlyn:
- diwygio pwerau'r Cofrestrydd Cwmnïau a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer partneriaethau cyfyngedig er mwyn diogelu busnesau, defnyddwyr a diogelwch cenedlaethol y DU.
 - cryfhau ymateb ehangach y DU i droseddau economaidd, yn enwedig drwy roi pwerau newydd i orfodi'r gyfraith i atafaelu crypto asedau a galluogi busnesau yn y sector ariannol i rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol i atal a chanfod troseddau economaidd;
 - cefnogi mentrau drwy alluogi Tŷ'r Cwmnïau i ddarparu gwell gwasanaeth i dros bedair miliwn o gwmnïau yn y DU, a gwella dibynadwyedd ei ddata i lywio trafodion busnes a phenderfyniadau benthyg ar draws yr economi.⁷

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

- 8.** Ym mharagraff 100 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidogion yn nodi:

"Mae rhan fwyaf o'r darpariaethau sydd yn y Bil wedi'u cadw yn ôl unol â:

- *Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("GoWA"); Atodlen 7A, Adran C1 (Cysylltiadau busnes ac enwau busnes), Paragraff 65;*
- *GoWA: Atodlen 7A, Adran B5 Troseddu, trefn gyhoeddus a phlisma, Paragraff 39 (Atal a chanfod troseddau, ac ymchwilio iddynt); a*
- *GoWA: Atodlen 7A, Adran L1 Y proffesiwn cyfreithiol, gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau rheoli hawliadau, Paragraff 164 (Y proffesiwn cyfreithiol a'r gwasanaethau cyfreithiol)*

⁵ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#), Rhagfyr 2022

⁶ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Rhif 2\) ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#), Ionawr 2023

⁷ Y Memorandwm, paragraffau 4 i 6

ac, o'r herwydd, nid oes angen caniatâd."

9. Mae paragraffau 10 i 26 o'r Memorandwm yn nodi'r darpariaethau yn y Bil y mae'r Gweinidogion o'r farn bod angen cydsyniad ar eu cyfer. Y darpariaethau dan sylw, sydd ar y cyd yn diwygio Deddf Enillion Troseddau 2002 (POCA), yw:

- cymal 141 – Cryptoasedau: gorchmynion atafaelu
- Atodlen 6 – Cryptoasedau: gorchmynion atafaelu (Rhan 1 sy'n diwygio darpariaethau POCA sy'n ymestyn i Gymru a Lloegr);
- cymal 142 – Cryptoasedau: adfer sifil
- Atodlen 7 – Cryptoasedau: adferiad sifil (Rhan 1, sy'n mewnosod Penodau 3C (Fforffedu cryptoasedau), 3D (Fforffedu cryptoasedau: waledi crypto), 3E (Fforffedu cryptoasedau yn dilyn gorchymyn cadw neu rewi) a 3F (Trosi cryptoasedau) yn Rhan 5 o POCA a Rhan 2, sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol a diwygiadau eraill i POCA o ganlyniad i fewnosod y penodau newydd).⁸

10. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad oherwydd bod y darpariaethau:

- yn addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru;
- wedi'u cynllunio i wella cyflwr yr economi yn y DU (gan gynnwys yng Nghymru) drwy ymladd yn erbyn troseddau economaidd, ac mae'r economi yn fater datganoledig.⁹

11. Ym mharagraff 27 o'r Memorandwm, nodir fel a ganlyn:

"Mae Llywodraeth y DU wedi dweud mai'r mesurau yn fersiwn wreiddiol y Bil sy'n sbarduno'r broses o geisio cynnig cydsyniad deddfwriaethol y Senedd yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â chryptoasedau yn Rhan 4 o'r Bil. Mae Rhan 4 o'r Bil yn ymwneud â chymalau 141 a 142 o'r Bil (ac felly, Atodlenni 6 a 7 o'r Bil). Mae Llywodraeth y DU o'r farn y bydd y diwygiadau hyn i POCA yn sbarduno proses cynnig cydsyniad deddfwriaethol oherwydd eu bod yn effeithio ar un o swyddogaethau

⁸ Mae rhifau'r cymalau wedi newid yn sgil cyflwyno'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ([Bil.HL.196](#)). Newidiodd cymal 141 i gymal 167 a newidiodd cymal 142 i gymal 168.

⁹ Gweler yr esboniad a roddir ym mharagraffau 11, 13, 15, 18, 20, 22, 24, 26 a 31 o'r Memorandwm

*Gweinidogion Cymru i bennu disgrifiad o ymchwilydd ariannol achrededig sy'n gallu arfer rhai o'r pwerau newydd hyn.*¹⁰

Safbwynt Llywodraeth Cymru

12. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru wedi'i nodi ym mharagraffau 28 i 32 o'r Memorandwm:

“Mae'r Bil yn adeiladu ar y gwaith o amgylch Deddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodi) gychwynnol 2022, a gefnogir yn flaenorol gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Bydd cynigion yn Rhan 4 o'r Bil yn mynd i'r afael â'r bygythiad cynyddol o gryptoasedau, sy'n cael eu defnyddio'n gynyddol i hwyluso ymosodiadau meddalwedd wystlo a gwyngalchu arian. Bydd y Bil yn diwygio pwerau yn POCA i alluogi ymchwilio, atafaelu ac adfer cryptoasedau yn well mewn achosion atafaelu troseddol ac adfer sifil.

Mae trafodaethau paratoadol gyda Llywodraeth y DU, ar lefel Weinidogol a swyddogol, a'r dadansoddi dilynol yn dangos bod y darpariaethau datganoledig dan sylw yn rhai technegol ac nad ydynt yn ddadleuol, ac felly mae'n briodol defnyddio'r Bil i wneud y ddarpariaeth hon yn hytrach na defnyddio Bil y Senedd.

Mae'r darpariaethau datganoledig dan sylw yn ymwneud â meysydd polisi ehangach a gedwir yn ôl. O ran cydsyniad Llywodraeth Cymru, mae hyn yn bennaf yn ymwneud â'r pwerau i atafaelu cryptoasedau yn gyflym ac yn haws, sef y prif gyfrwng a ddefnyddir ar gyfer meddalwedd wystlo sy'n cyd-fynd â'n polisiâu seiberddiogelwch.

Byddai gwneud y darpariaethau hyn yn fanteisiol am resymau cyffredin i sicrhau bod Economi Cymru yn cefnogi mesurau'n gadarn ac yn amgylchedd annymunol ar gyfer gwyngalchu arian, seiberdroseddu economaidd a gweithgarwch anghyfreithlon cysylltiedig arall.

¹⁰ Y Memorandwm, paragraff 27. Gweler hefyd y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol, Nodiadau Esboniadol, Medi 2022, Atodiad – Rychwant tiriogaethol a chymhwysio yn y Deyrnas Unedig

Rydym wedi dangos i Dŷ'r Cwmnïau yn glir ein bod o blaid derbyn adnoddau priodol i weithredu'r newidiadau o amgylch ei gyfrifoldebau cynyddol o ganlyniad i weithredu'r Bil."

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

13. Ar 3 Ionawr 2023, gosododd y Gweinidogion Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil¹¹ yn dilyn gwelliannau a wnaed i'r Bil yn y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.¹²

14. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 9 Mawrth 2023.¹³

15. Mae'r gwelliannau i'r Bil a wnaed yn y cyfnod Pwyllgor yn effeithio ar y darpariaethau a ganlyn, ac roedd pob un ohonynt hefyd yn destun ystyriaeth yn y Memorandwm:

- cymal 142 - Cryptoasedau: adfer sifil;
- Atodlen 7 - Cryptoasedau: adfer sifil (Pennod 3E (Fforffedu cryptoasedau) a Phennod 3F (Trosi cryptoasedau));
- Rhan 2 o Atodlen 7 - Diwygiadau canlyniadol a diwygiadau eraill i POCA.¹⁴

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil

16. Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau nad yw'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yn effeithio ar y cyngor gwreiddiol ar gymhwysedd ar gyfer yr un o'r darpariaethau.¹⁵

17. Mae paragraff 38 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi fel a ganlyn:

"Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mewn gohebiaeth eu bod 'ddim o'r farn bod y gwelliannau hyn yn cynnwys y broses

¹¹ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\) y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#), Ionawr 2023

¹² [Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol \(Penderfyniadau y cyfnod Pwyllgor\)](#), Tachwedd 2022

¹³ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#), Ionawr 2023

¹⁴ Memorandwm Rhif 2, paragraffau 14 i 15, 18 i 24, 27 i 29 a 32 i 36

¹⁵ Memorandwm Rhif 2, paragraffau 15, 24, 29 a 36

Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd'. Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi manylion eu dadansoddiad ac felly nid yw'n glir sut y daethpwyd i'r casgliad hwn. Nid yw'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd ar gyfer fersiwn wreiddiol y Bil (y mae, yn unol â pharagraff 36 uchod, dadansoddiad Llywodraeth y DU yn cyd-fynd â'r LCM gwreiddiol). Mae'n iawn dod i'r casgliad, felly, bod angen cydsyniad ar gyfer diwygiadau i rannau o'r Bil a ystyriwyd yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29 at ddibenion yr LCM gwreiddiol."

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

18. Trafodwyd y Memoranda yn ein cyfarfod ar 23 Ionawr 2023.¹⁶ Trafodwyd y gohebiaeth gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) ar 6 Chwefror 2023.¹⁷ Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 27 Chwefror 2022.¹⁸

Ein barn ni

19. Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2. Rydym yn cytuno â'r asesiad hwnnw.

Casgliad 1. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog bod cymalau 141 a 142, ac Atodlenni 6 a 7 yn y Bil (fel y'i cyflwynwyd) yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd o ganlyniad.

20. Rydym yn nodi mai un o ganlyniadau'r Bil yw ei fod yn newid cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

21. Rydym yn nodi'r ohebiaeth a ddaeth i law gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ynghylch y Bil ac yn croesawu ei ymgysylltiad â ni ar y materion a godwyd gan y Bil a'r Memoranda.

¹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023

¹⁷ Llythyr oddi wrth yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, 2 Chwefror 2023

¹⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 27 Chwefror 2023